




# Cael dylanwad

Mae Confederasiwn GIG Cymru yn cynrychioli'r saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG a dau awdurdod iechyd arbennig.

Dyma rai o feysydd dylanwad allweddol Confederasiwn GIG Cymru yn ystod 2023/24.




## Sgwrs genedlaethol ar ddyfodol iechyd a gofal

Cymeradwywyd ein hymgyrch ar gyfer sgwrs genedlaethol trawslywodraethol, traws-sector ar ddyfodol iechyd a gofal gan 32 o sefydliadau a derbyniodd gydnabyddiaeth weinidogol.



## Pwysau ariannol a dylanwadu ar gyllidebau'r llywodraeth

Yn ystod un o'r blynyddoedd mwyaf heriol yn ariannol i'r GIG, gwelodd Cyllideb Derfynol 2024/25 Llywodraeth Cymru gynnydd mewn buddsoddiad cyfalaf a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn dilyn ein galwadau cyson.



## Dylanwadu ar bolisi iechyd meddwl

Mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu ein galwadau i ganolbwyntio ar ddull llywodraeth gyfan, sector cyfan, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant.



## Partneriaeth celfyddydau ac iechyd sy'n arwain y byd

Cafodd ein partneriaeth celfyddydau ac iechyd a gydnabyddir yn rhyngwladol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ei harddangos mewn astudiaeth fyd-eang ac adolygiad o bwys, gan dynnu sylw at dylanwad cydlynwyr celfyddydau ac iechyd ym myrddau iechyd Cymru.



## Llunio diwygio gofal cymdeithasol

Fe wnaethom helpu i lunio'r sgwrs ar ddiwygio gofal cymdeithasol, gydag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cyflogau staff gofal cymdeithasol yn dilyn ein galwadau am gyflog, telerau ac amodau cyfartal.



## Darparu cymorth strategol i arweinywyr y GIG

Fe wnaethom alluogi rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn well ar draws arweinyddiaeth y GIG, gan feithrin dealltwriaeth o flaenoriaethau system gyfan a hwyluso datblygiad datrysiadau trawsbynciol.